***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2678

# Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001

**Cyfyngiadau ar newid categori ysgol**

**5.**—(1) Rhaid i ysgol beidio â newid categori i ddod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir oni fydd corff llywodraethu'r ysgol yn bodloni'r Cynulliad Cenedlaethol y bydd y corff llywodraethu (fel corff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir) yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau o dan Atodlen 3 i'r Ddeddf am gyfnod o bum mlynedd o leiaf ar ôl y dyddiad gweithredu.

(2) Ni chaiff ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir ddod yn ysgol gymunedol ac ni chaiff ysgol arbennig sefydledig ddod yn ysgol arbennig gymunedol oni bai bod unrhyw gytundeb trosglwyddo a chytundeb trosglwyddo hawliau a rhwymedigaethau sy'n ofynnol o dan Atodlen 4 wedi'u gwneud.

(3) Ni chymerir bod newid categori ysgol o dan y Rheoliadau hyn yn awdurdodi ysgol i sefydlu corff sefydledig, neu i ymuno neu ymadael â chorff o'r fath.